**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-913
Ein cyf/Our ref KS/08639/19

Janet Finch-Saunders AC

Government.Committee.Business@gov.wales

31 Ionawr 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Rhagfyr ynghylch Deiseb P-05-913 – Creu Llwybr Amlddefnydd Lôn Las Môn.

Gwnaeth Network Rail gynnwys Llywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad ar y bwriad i brydlesu rheilffordd Gaerwen-Amlwch ym mis Mehefin 2016. Cadarnhaodd Network Rail y byddai telerau'r brydles yn creu darpariaeth derfynu dreigl am dri mis petai angen y llinell at ddefnydd arall (hy gallai'r brydles gael ei therfynu drwy roi rhybudd o 3 mis ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y brydles). Gwnaeth ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad nodi'r ffaith ein bod yn cefnogi'r ddarpariaeth a fyddai'n sicrhau bod modd terfynu'r brydles os bydd angen petai defnydd posibl wedi'i bennu o safbwynt teithwyr rheilffordd/cludo nwyddau. Gan fod y mesurau hyn yn eu lle roedd Llywodraeth Cymru'n barod i gefnogi'r trefniant prydlesu arfaethedig hwn yn sgil y cyfraniad posibl at dwristiaeth yng Ngogledd Cymru.

Fel rhan o'n hymateb i Adolygiad Rheilffyrdd Williams gwnaethom bwysleisio'r angen i'r cyfrifoldeb am y seilwaith rheilffyrdd gael ei ddatganoli'n llwyr i Lywodraeth Cymru, gyda setliad cyllid teg ar ei gyfer. Os byddai hyn yn bosibl byddem yn barod i ystyried a datblygu cynigion ar gyfer gwella cysylltedd y rheilffyrdd fel y nodir yn ein gweledigaeth ar gyfer y rheilffyrdd sy'n cynnwys ystyried ailagor llinellau fel yr un rhwng Gaerwen ac Amlwch.

Mae'r broses asesu gorsafoedd wedi'i datblygu er mwyn sicrhau bod cyfres o gynlluniau newydd ar gael a all fanteisio ar gyfleoedd cyllid yr Adran Drafnidiaeth. Mae gwaith cychwynnol wedi'i gynnal hyd yma er mwyn atgyfnerthu'r achos ariannol ac economaidd dros greu gorsaf newydd yn Llangefni. Nid oes argymhelliad y dylai'r orsaf fod yn destun gwaith asesu pellach ar hyn o bryd. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y broses asesu yma:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/new-rail-stations-prioritisation-stage-2-assessment-report.pdf

Yn ogystal â'r uchod, bydd gofyn cynnwys y llwybr ar Fap Rhwydwaith Integredig Cyngor Sir Ynys Môn fel y gall gael ei ystyried ar gyfer gwaith datblygu.

Yn gywir,



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport